# Pecyn Dogfennau

Cydbwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru
Uned Gwasanaethau Democrataidd
Adran y Prif Weithredwr
Cyngor Sir Gar
Neuadd y Sir
Caerfyrddin SA31 1JP.

**DYDD MAWRTH, 14EG MEDI, 2021**

**AT: HOLL AELODAU'R CYD-BWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU**

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU **CYFARFOD RHITHWIR** O'R **CYD-BWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU** A GYNHELIR AM **10.00 Y.B.** AR **DDYDD MERCHER, 22AIN MEDI, 2021** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM

*Wendy Walters*

**PRIF WEITHREDWR**

**CYNGOR SIR GAR**

**SYLWCH:** BYDD Y CYFARFOD HWN YN CAEL EI FFILMIO I'W DDARLLEDU'N FYW NEU AR ÔL I'R CYFARFOD ORFFEN. GALLAI'R LLUNIAU A'R SAIN A RECORDIR GAEL EU DEFNYDDIO AT DDIBENION HYFFORDDI YN GYFFREDINOL



| | |
|---|---|
| **Swyddog Democrataidd:** | **Michelle Evans Thomas** |
| **Ffôn (llinell uniongyrchol):** | **01267 224470** |
| **E-bost:** | **MEEvansThomas@sirgar.gov.uk** |

**CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU**
**PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU**
**8 AELOD**
(1 Aelod etholedig o bod Awdurdod Cyfansoddol

**<u>CYNGOR SIR GAR</u>**

**CYNGHORYDD ELWYN WILLIAMS**

**<u>DINAS A SIR ABERTAWE</u>**

**CYNGHORYDD CLIVE LLOYD**

**<u>CYNGOR DINAS CAERDYDD</u>**

**CYNGHORYDD CHRISTOPHER WEAVER**

**<u>CYNGOR SIR Y FFLINT</u>**

**CYNGHORYDD TED PALMER**

**<u>CYNGOR SIR GWYNEDD</u>**

**CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS**

**<u>CYNGOR SIR POWYS</u>**

**CYNGHORYDD PETER LEWIS**

**<u>CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF</u>**

**CYNGHORYDD MARK NORRIS**

**<u>CYNGOR BWRDEISDREF SIROL TORFAEN.</u>**

**CYNGHORYDD GLYN CARON**

# A G E N D A


| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB** | |
| **2.** | **DATGANIADAU O FUDDIANT** | |
| **3.** | **LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y CYD-BWYLLGOR A GYNHALIWYD AR 28AIN GORFFENNAF, 2021** | 5 - 12 |
| **4.** | **DIWEDDARIAD GAN YR AWDURDOD LLETYA** | 13 - 16 |
| **5.** | **ADOLYGIAD COFRESTR RISK C3 2021** | 17 - 24 |
| **6.** | **DIWEDDARIAD GAN Y GWEITHREDWR** | 25 - 38 |
| **7.** | **ADRODDIAD PERFFORMIAD FEL AR 30/06/21** | 39 - 58 |
| **8.** | **GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD** | |


**NI DDYLID CYHOEDDI'R ADRODDIADAU SY'N YMWNEUD Â'R MATERION CANLYNOL GAN EU BOD YN CYNNWYS GWYBODAETH EITHRIEDIG FEL Y'I DIFFINIWYD YM MHARAGRAFF 14 O RAN 4 O ATODLEN 12A I DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 FEL Y'I DIWYGIWYD GAN ORCHYMYN LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) (AMRYWIO) (CYMRU) 2007. OS BYDD Y PWYLLGOR AR ÔL CYNNAL PRAWF LLES Y CYHOEDD YN PENDERFYNU YN UNOL Â'R DDEDDF, I YSTYRIED Y MATERION HYN YN BREIFAT, GORCHMYNNIR I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD YN YSTOD TRAFODAETH O'R FATH.**


| | | |
|---|---|---|
| **9.** | **NEWIDIADAU RHEOLWR IS-GRONFA** | 59 - 72 |
| **10.** | **ADOLYGIAD BENTHYCA GWARANNAU BYD-EANG HYD AT 30 MEHEFIN 2021** | 73 - 112 |
| **11.** | **GWASANAETH YMGYSYLLTU ROBECO - ADRODDIAD YMGYSYLLTU CH2 2021** | 113 - 128 |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

## DYDD MERCHER, 28 GORFFENNAF, 2021

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd C. Lloyd [Cadeirydd]

**Y Cynghorwyr:**
G. Caron, P. Jenkins, P. Lewis, M. Norris, T. Palmer, C. Weaver a D.E. Williams

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:**
C. Moore - Swyddog Adran 151 y Cyd-bwyllgor (Cyngor Sir Caerfyrddin)
L. Rees-Jones - Swyddog Monitro'r Cyd-bwyllgor (Cyngor Sir Caerfyrddin)
C. Lee - Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau (Dinas Caerdydd)
P. Griffiths - Cyfarwyddwr Gwasanaeth Cyllid a Gwella (Rhondda Cynon Taf)
N. Aurelius - Prif Weithredwr Cynorthwyol - Adnoddau (Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen)
P. Latham - Pennaeth Cronfa Bensiwn Clwyd (Cyngor Sir y Fflint)
J. Thomas - Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol (Cyngor Sir Penfro)
J. Dong - Dirprwy Swyddog Adran 151/ Prif Swyddog Cyllid (Dinas a Sir Abertawe)
D. Edwards - Prif Swyddog Cyllid (Cyngor Gwynedd)
A. Parnell – Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn (Cyngor Sir Caerfyrddin)
T. Williams - Uwch-swyddog Gwasanaethau Ariannol (Cyngor Sir Caerfyrddin)
M Evans Thomas - Pen-swyddog Gwasanaethau Democrataidd (Cyngor Sir Caerfyrddin) [Cymryd nodiadau]
M. Davies - Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (Cyngor Sir Caerfyrddin) [Cynorthwyo]
S. Hendy – Swyddog Gwasanaethau Aelodau [Gweddarlledu]
A. Eynon – Cyfieithydd ar y Pryd (Cyngor Sir Caerfyrddin)

**Hefyd yn bresennol i gyflwyno adroddiadau:**
J. Garcia – Archwilio Cymru
I. Colvin – Hymans Robertson
J. Wright - Hymans Robertson
E. Gough - Link Fund Solutions
R. Thornton - Link Fund Solutions
D. Armstrong – Northern Trust
N. Round – Northern Trust
R. Smith – Northern Trust
A. Knell - Robeco
K. Robertson – Robeco
J. Leggate - Russell Investments
T. Paik - Russell Investments
A. Quinn - Russell Investments
S. Soerensen – Russell Investments

**Hefyd yn bresennol fel sylwedyddion:**
A. Bull - Rheolwr Buddsoddi Pensiynau (Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen)
M. Falconer – Rheolwr Pensiynau (Dinas Caerdydd)
C. Hurst - Rheolwr y Gronfa Bensiwn (Cyngor Sir Penfro)
G. Watkins - Rheolwr y Gwasanaethau Refeniw (Dinas Caerdydd)

Y. Keitch - Prif Gyfrifydd (Rhondda Cynon Taf)
K. Cobb - Uwch Gyfrifydd (Dinas a Sir Abertawe)

**Rhith-Gyfarfod - 10.00 yb - 12.10 yp**

**1. PENODI CADEIRYDD Y CYD-BWYLLGOR LLYWODRAETHU AR GYFER Y FLWYDDYN CALENDR NESAF**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL benodi'r Cynghorydd Clive Lloyd yn Gadeirydd y Cyd-bwyllgor Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn galendr nesaf.**

Diolchwyd i'r cyn-Gadeirydd am ei waith caled a'i gyfraniad i'r Cyd-bwyllgor yn ystod ei gyfnod fel Cadeirydd.

**2. PENODI IS-GADEIRYDD Y CYD-BWYLLGOR LLYWODRAETHU AR GYFER Y FLWYDDYN CALENDR NESAF**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL benodi'r Cynghorydd Chris Weaver yn Is-gadeirydd y Cyd-bwyllgor Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn galendr nesaf.**

**3. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

**4. DATGANIADAU O FUDDIANT**

| Yr Aelod | Eitem Rhif ar yr Agenda | Buddiant |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd G. Caron | Pob eitem ar yr agenda | Mae'n aelod sy'n talu ac yn aelod sy'n derbyn o Gronfa Bensiwn Gwent Fwyaf, mae ei wraig yn aelod gohiriedig ac mae ei fab yng nghyfraith yn aelod. |
| Y Cynghorydd P. Lewis | Pob eitem ar yr agenda | Aelod o Gronfa Bensiwn Powys |
| Y Cynghorydd C. Lloyd | Pob eitem ar yr agenda | Aelod o Gronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe |
| Y Cynghorydd M. Norris | Pob eitem ar yr agenda | Aelod o Gronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf |
| Y Cynghorydd T. Palmer | Pob eitem ar yr agenda | Mae ei bartner a'i ferch yn aelodau o Gronfa Bensiwn Clwyd |
| Y Cynghorydd E. Williams | Pob eitem ar yr agenda | Aelod o Gronfa Bensiwn Dyfed |

[Sylwer: Ceir eithriad yn y Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau, sy'n caniatáu i aelod a benodwyd neu a enwebwyd gan ei awdurdod i gorff perthnasol ddatgan y buddiant hwnnw ond aros a chymryd rhan yn y cyfarfod.]

5. **LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 24AIN MAWRTH, 2021.**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Cyd-bwyllgor Llywodraethu oedd wedi'i gynnal ar 24 Mawrth 2021 gan eu bod yn gywir.**

6. **DATGANIAD/ARCHWILIAD BLYNYDDOL 2020/21**

[SYLWER: Roedd y Cynghorwyr G. Caron, P. Lewis, C. Lloyd, M. Norris, T. Palmer ac E. Williams wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Cyflwynodd Swyddog Adran 151 y Cyd-bwyllgor y Ffurflen Flynyddol wedi'i harchwilio ar gyfer 2020/21. Roedd adrannau Datganiadau Cyfrifon a Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Ffurflen Flynyddol wedi'u paratoi gan yr Awdurdod Cynnal yr oedd ei Adain Archwilio Mewnol wedi cynnal Adolygiad Archwilio Mewnol.

Roedd y Ffurflen Flynyddol hefyd wedi'i harchwilio gan Archwilio Cymru a chyflwynodd Mr Jason Garcia o Archwilio Cymru y llythyr archwilio i'r Cyd-bwyllgor.

Roedd yr Awdurdod Cynnal hefyd wedi paratoi Datganiad Cyfrifon llawn i Bartneriaeth Pensiwn Cymru ar gyfer 2020/21. Nid oedd y Datganiad yn ofyniad statudol ac ni fyddai'n cael ei archwilio. Fe'i paratowyd er gwybodaeth yn unig, i gefnogi'r wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol.

**PENDERFYNWYD**

**6.1 Derbyn y llythyr gan Archwilio Cymru ynghylch Ffurflen Flynyddol Partneriaeth Pensiwn Cymru 2020/21;**
**6.2 Cymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol wedi'i Harchwilio ar gyfer 2020/21;**
**6.3 Cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon llawn heb ei Archwilio ar gyfer 2020/21.**

7. **DIWEDDARIAD GAN YR AWDURDOD LLETYA**

[SYLWER: Roedd y Cynghorwyr G. Caron, P. Lewis, C. Lloyd, M. Norris, T. Palmer ac E. Williams wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Cafodd y Cyd-bwyllgor ddiweddariad cynnydd mewn perthynas â'r meysydd allweddol canlynol:

- Llywodraethu;
- Sefydlu parhaus;
- Gwasanaethau gweithredwr;
- Cyfathrebu ac adrodd;
- Hyfforddiant a chyfarfodydd; ac
- Adnoddau, cyllideb a ffioedd.

**PENDERFYNODD YN UNFRYDOL dderbyn diweddariad yr Awdurdod Cynnal.**

## 8. ADOLYGIAD COFRESTR RISG CHWARTER 2 2021

[SYLWER: Roedd y Cynghorwyr G. Caron, P. Lewis, C. Lloyd, M. Norris, T. Palmer ac E. Williams wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Ystyriodd y Cyd-bwyllgor Adolygiad Cofrestr Risg Ch2 2021. Yn ystod y chwarter diwethaf, roedd y Gweithgor Swyddogion wedi cynnal adolygiad o rai o'r risgiau yn adran Llywodraethu a Rheoleiddio'r Gofrestr Risg h.y. Risgiau G.7 i G.12. Roedd yr adroddiad yn crynhoi canlyniadau'r adolygiad ar gyfer pob risg.

Yn ystod yr adolygiad cafodd dwy risg ychwanegol eu nodi a'u hychwanegu at y Gofrestr Risg, fel a ganlyn:-

G.13 **-** y risg y bydd data cyfrinachol/sensitif yn fasnachol yn cael ei ddatgelu, ei ddwyn neu ei roi yn y lle anghywir, a

G.14 **-** y risg y bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn methu â nodi camarfer a chymryd camau i'w unioni.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r newidiadau i Gofrestr Risg Partneriaeth Pensiwn Cymru, fel y nodwyd yn yr adroddiad**

## 9. ADOLYGIADAU POLISI BLYNYDDOL

[SYLWER: Roedd y Cynghorwyr G. Caron, P. Lewis, C. Lloyd, M. Norris, T. Palmer ac E. Williams wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Cafodd y Cyd-bwyllgor adroddiad yn manylu ar yr Adolygiadau Polisi Blynyddol a gynhaliwyd mewn perthynas â'r polisïau canlynol:-

- Polisi Gwrthdaro Buddiannau
- Polisi Risg
- Polisi Risg Hinsawdd

Cymeradwywyd y polisïau hyn gan y Cyd-bwyllgor Llywodraethu ym mis Gorffennaf 2020 ac roeddent wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru gan y Gweithgor Swyddogion.

O ran y Polisi Gwrthdaro Buddiannau, cyfeiriwyd at 16.2 a gofynnwyd i swyddogion a oedd yn wirioneddol angenrheidiol i aelodau ddatgan buddiant yn holl eitemau'r agenda ac ym mhob cyfarfod ac oni ellid gwneud datganiad blynyddol yn ei le. Esboniodd Swyddog Monitro'r Cyd-bwyllgor ei bod yn ofynnol yn y Cod Ymddygiad bod aelodau'n datgan unrhyw buddiannau gwrthdaro ym mhob cyfarfod

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r polisïau wedi'u diweddaru, fel y nodir uchod.**

## 10. DIWEDDARIAD GAN Y GWEITHREDWR

[SYLWER: Roedd y Cynghorwyr G. Caron, P. Lewis, C. Lloyd, M. Norris, T. Palmer ac E. Williams wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Cafodd y Cyd-bwyllgor gyflwyniad ar gynnydd Partneriaeth Pensiwn Cymru mewn perthynas â'r meysydd allweddol canlynol:

- Daliannau Cyfredol y Gronfa;
- Cynnydd Lansio'r Gronfa;
- Diweddariad ac Ymgysylltiad Corfforaethol.

Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd a cherrig milltir yr Is-gronfeydd canlynol:-

- Cyfran 1 – Ecwiti Byd-eang
- Cyfran 2 – Ecwiti y DU
- Cyfran 3 - Incwm Sefydlog
- Cyfran 4 – Marchnadoedd Datblygol

**PENDERFYNODD YN UNFRYDOL dderbyn y Diweddariad gan y Gweithredwr.**

## 11. ADRODDIADAU PERFFORMIAD FEL AR 31 MAWRTH 2021

[SYLWER: Roedd y Cynghorwyr G. Caron, P. Lewis, C. Lloyd, M. Norris, T. Palmer ac E. Williams wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Cafodd y Cyd-bwyllgor gyflwyniad ar yr Adroddiadau Perfformiad fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2021. Nodwyd bod yr is-gronfeydd wedi perfformio'n uwch/tanberfformio yn erbyn eu meincnodau priodol, fel a ganlyn:

- Perfformiodd Cyfleoedd Byd-eang 2.29% gros / 1.91% net yn uwch
- Perfformiodd Twf Byd-eang 3.42% gros / 2.96% net yn uwch
- Perfformiodd Cyfleoedd y DU 4.45% gros / 4.00% net yn uwch
- Perfformiodd Bond Llywodraeth Fyd-eang 1.83% gros / 1.71% net yn uwch
- Perfformiodd Credyd Byd-eang 1.22% gros / 1.12% net yn uwch
- Perfformiodd Credyd Aml-asedau 3.61% gros / 3.33% net yn uwch
- Perfformiodd Bond Elw Absoliwt 1.26% gros / 1.02% net yn uwch
- Tanberfformiodd Credyd y DU 0.15% gros / 0.22% net

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch pwy oedd yn gyfrifol am olrhain buddsoddiadau goddefol, dywedwyd wrth y Cyd-bwyllgor mai Blackrock oedd yn gyfrifol am hynny, ond mai mater i bob awdurdod cyfansoddol oedd penderfynu sut mae'n monitro ei fuddsoddiadau goddefol gyda Blackrock.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Adroddiadau Perfformiad yr is-gronfeydd, fel y nodwyd uchod, fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2021.**

**12. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

**13. IS-GRONFA MARCHNADOEDD DATBLYGOL - NEWID RHEOLWR**

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 12 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn debygol o achosi niwed ariannol i'r Gronfa Bensiwn ac o niweidio trafodaethau parhaus a thrafodaethau'r dyfodol.**

[SYLWER: Roedd y Cynghorwyr G. Caron, P. Lewis, C. Lloyd, M. Norris, T. Palmer ac E. Williams wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Ystyriodd y Cyd-bwyllgor adroddiad yn cynnig newid un o reolwyr gwreiddiol yr Is-gronfa.

**PENDERFYNODD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r bwriad i newid rheolwr, fel y nodir yn yr adroddiad.**

**14. ADOLYGIAD BENTHYCA GWARANNAU BYD-EANG HYD AT 31 MAWRTH 2021**

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd, PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 12 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn cael effaith andwyol ar Bartneriaeth Pensiwn Cymru drwy roi trafodaethau dan anfantais.**

[SYLWER: Roedd y Cynghorwyr G. Caron, P. Lewis, C. Lloyd, M. Norris, T. Palmer ac E. Williams wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Cafodd y Cyd-bwyllgor adroddiad am yr Adolygiad Benthyca Gwarannau Byd-eang.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi Adolygiad Benthyca Gwarannau Byd-eang fel yr oedd ar 31 Mawrth 2021.**

**15. GWASANAETH YMGYSYLLTU ROBECO - ADRODDIAD YMGYSYLLTU Ch1 2021**

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 12 uchod,**

**fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn debygol o achosi niwed ariannol i'r Gronfa Bensiwn ac o niweidio trafodaethau parhaus a thrafodaethau'r dyfodol.**

[SYLWER: Roedd y Cynghorwyr G. Caron, P. Lewis, C. Lloyd, M. Norris, T. Palmer ac E. Williams wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Cafodd y Cyd-bwyllgor Adroddiad Ymgysylltu Ch1 2021.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn Adroddiad Ymgysylltu Ch1 2021.**

## 16. ADRODDIADAU BUDDSODDI CYFRIFOL A RISG HINSAWDD - Ch1 2021

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 12 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn debygol o achosi niwed ariannol i'r Gronfa Bensiwn ac o niweidio trafodaethau parhaus a thrafodaethau'r dyfodol.**

[SYLWER: Roedd y Cynghorwyr G. Caron, P. Lewis, C. Lloyd, M. Norris, T. Palmer ac E. Williams wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Cafodd y Cyd-bwyllgor yr adroddiadau Buddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd mewn perthynas â'r cronfeydd canlynol:-

- Is-Gronfa Twf Byd-eang
- Is-Gronfa Cyfleoedd Byd-eang
- Is-gronfa Cyfleoedd y DU

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr Adroddiadau Buddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd ar gyfer Ch1 2021.**

## 17. YMGYNGHORYDD DYRANWYR PARTNERIAETH PENSIYNAU CYMRU

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 12 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn cael effaith andwyol ar y Gronfa Bensiwn drwy niweidio o bosib y broses gaffael.**

[SYLWER: Roedd y Cynghorwyr G. Caron, P. Lewis, C. Lloyd, M. Norris, T. Palmer ac E. Williams wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Ystyriodd y Cyd-bwyllgor adroddiad yn cynnig penodi Ymgynghorydd Dyranwyr ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru, yn unol ag Atodlen 3 i'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL benodi cynigydd 1, fel y nodwyd yn yr adroddiad, yn ymgeisydd a ffefrir ar gyfer Ymgynghorydd Dyranwyr Partneriaeth Pensiwn Cymru, yn amodol ar y telerau a nodwyd yn yr adroddiad.**

____________________________ _____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

## CYD-BWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

## DYDDIAD 22 MEDI 2021

| PWNC |
|---|
| **DIWEDDARIAD GAN YR AWDURDOD LLETYA** |
| **ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:**<br><br>**Derbyn diweddariad gan yr awdurdod lletya** |
| **RHESYMAU:**<br><br>Yr awdurdod lletya i roi diweddariad ar gynnydd mewn perthynas â'r meysydd allweddol a ganlyn:<br>• Llywodraethu<br>• Sefydlu parhaus<br>• Gwasanaethau gweithredwr<br>• Cyfathrebu ac adrodd<br>• Hyfforddiant a chyfarfodydd<br>• Adnoddau, cyllideb a ffioedd |



| Awdur yr Adroddiad: | Swydd: | Rhif Ffôn: 01267 224160 |
|---|---|---|
| **Chris Moore** | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol<br><br>**Cyngor Sir Caerfyrddin** | **E-bost:** CMoore@sirgar.gov.uk |

# CRYNODEB GWEITHREDOL
# CYD-BWYLLGOR LLYWODRAETHU

## DYDDIAD 22 MEDI 2021

## DIWEDDARIAD GAN YR AWDURDOD LLETYA

### CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD

Cymeradwywyd Cynllun Busnes PPC 2021/22 ar 24 Mawrth 2021.

Mae gwaith wedi parhau i gael ei ddatblygu mewn nifer o feysydd allweddol, gan gynnwys:

- Adroddiad Blynyddol 2020/21
- Diweddariad y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG)
- Adolygiad Gweithredwr – mae cyfarfodydd chwarterol yn parhau i gael eu cynnal gyda'r Awdurdod Lletya, Link a Hymans Robertson
- Proses gaffael Dyranwyr Marchnadoedd Preifat
- Is-grwpiau'r Gweithgor Swyddogion:
  - Is-grŵp Marchnadoedd Preifat
  - Is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol
  - Is-grŵp Cofrestr Risg

Camau nesaf / Blaenoriaethau:

- Dod yn llofnodwr Cod Stiwardiaeth y Deyrnas Unedig
- Atodiad y Cytundeb Rhwng-Awdurdodau – ceisio cymeradwyaeth ffurfiol gan bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansodddol
- Cynrychiolydd Aelodau'r Cynllun – dechrau'r broses benodi
- Lansio'r Is-gronfa Marchnadoedd Datblygol – 20 Hydref 2021
- Datblygu Is-gronfeydd Marchnadoedd Preifat:
  - Medi 2021 - Chwefror 2022 - Caffael Dyranwyr Dyled Breifat, Ecwiti Preifat a Seilwaith (x2)
  - 23 Mawrth 2022 – Cyd-bwyllgor Llywodraethu i gymeradwyo penodiadau Dyranwyr
  - Mawrth 2022 - Rhagfyr 2022 – datblygu, cymeradwyo a lansio'r is-gronfeydd Dyled Breifat, Ecwiti Preifat a Seilwaith
- Adolygiad Gweithredwr:
- Cyflwyno adroddiad i gyfarfod y Cyd-bwyllgor Llywodraethu ym mis Rhagfyr 2021

Meysydd allweddol eraill:

- Hyfforddiant – sesiynau hyfforddiant yn parhau i gael eu cynnal yn rhithwir
- Gwefan – mae newyddion a chyhoeddiadau perthnasol yn parhau i gael eu rhoi ar y wefan

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?** | NAC OES |

## GOBLYGIADAU

| Polisi, Trosedd ac Anhrefn, a Chydraddoldeb | Cyfreithiol | Cyllid | Materion Rheoli Risg | Goblygiadau Staffio |
|---|---|---|---|---|
| **OES** | **DIM** | **DIM** | **DIM** | **DIM** |

**Polisi**

Bydd y dogfennau polisi a gweithdrefnau yn ddogfennau ffurfiol ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru.

## YMGYNGORIADAU

Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgyngoriadau a gynhaliwyd yma

**Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol 1972 - Mynediad at Wybodaeth**
**Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:**

**NID OES DIM**

| Teitl y Ddogfen | Cyfeirnod Ffeil | Y mannau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld/DOLEN GWEFAN |
|---|---|---|
| | | |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU
# CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

## DYDDIAD 22 MEDI 2021

## PWNC

## ADOLYGIAD COFRESTR RISG CHWARTER 3 2021

**ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:**

**Cymeradwyo'r diwygiadau i Gofrestr Risg PPC**

**RHESYMAU:**

Crëwyd a chymeradwywyd Cofrestr Risg Partneriaeth Pensiwn Cymru gan y CBLl ar 17 Gorffennaf 2020. Mae'r Gweithgor Swyddogion wedi cynnal adolygiad chwarterol o'r gofrestr, gan edrych ar yr adrannau risg Hyfforddiant ac Adnoddau a Cyfathrebu.



| Awdur yr Adroddiad: | Swydd: | Rhif Ffôn: 01267 224160 |
|---|---|---|
| **Chris Moore** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol<br><br>**Cyngor Sir Gâr** | **E-bost:**<br>**CMoore@carmarthenshire.gov.uk** |

# CRYNODEB GWEITHREDOL
# CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

## DYDDIAD 22 MEDI 2021

| ADOLYGIAD COFRESTR RISG CHWARTER 3 2021 | |
|---|---|
| **CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD**<br><br>Mae PPC wedi creu Cofrestr Risg, sef y modd y mae risgiau yn cael eu dogfennu, eu rheoli a'u monitro. Pwrpas Cofrestr Risg y PPC yw:<br>• Amlinellu risgiau a ffactorau allweddol PPC a allai gyfyngu ar ei allu i gwrdd â'i amcanion<br>• Meintoli difrifoldeb a tebygolrwydd y risg sy'n wynebu PPC<br>• Rhoi crynodeb o strategaethau rheoli risg PPC<br>• Monitro arwyddocâd parhaus y risgiau hyn a'r gofyn am strategaethau lliniaru risg pellach<br><br>Cymeradwywyd y Gofrestr Risg wreiddiol gan y CBLl ar 17 Gorffennaf 2020. Y GS sy'n gyfrifol am gynnal a chadw Cofrestr Risg PPC ac adrodd yn ôl ar unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau i'r CBLl yn chwarterol.<br><br>Yn ystod y chwarter diwethaf, cynhaliwyd adolygiad o'r risgiau hyfforddiant ac adnoddau a risgiau cyfathrebu. Mae'r daflen sydd ynghlwm yn rhoi crynodeb o ddeilliannau adolygu pob risg. Mae hyn yn cwblhau adolygiad blynyddol blwyddyn gyntaf y Gofrestr Risg.<br><br>Mae gan y GS Is-grŵp Risg PPC penodol i gymryd perchnogaeth o Gofrestr Risg PPC ac adolygiad chwarterol y ddogfen hon.  Bydd yr adolygiad nesaf yn cael ei gynnal yn Ch4 2021 a bydd yn canolbwyntio ar risgiau yn yr adran Buddsoddiadau. | |
| **ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?** | **OES** |

# GOBLYGIADAU

| Polisi, Trosedd ac Anhrefn, a Chydraddoldeb<br>**OES** | Cyfreithiol<br>**DIM** | Cyllid<br>**DIM** | Materion Rheoli Risg<br>**DIM** | Goblygiadau Staffio<br>**DIM** |
|---|---|---|---|---|
| **Polisi**<br>Mae'r Gofrestr Risg yn ddogfen ffurfiol ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru. | | | | |

# YMGYNGHORIADAU

Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd yma

**Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol 1972 - Mynediad at Wybodaeth**
**Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:**

**NID OES DIM**

| Teitl y Ddogfen | Cyfeirnod Ffeil | Y mannau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld/DOLEN GWEFAN |
|---|---|---|
| | | |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

## Diweddariad Cofrestr Risg PPC – Medi 2021, CBLI

| Risg | Ffocws y Risg | Targed Sgôr y Risg | Sgôr Risg Presennol | Statws Presennol | Corff Cyfrifol | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| T.1 | PPC yn methu â chynnal a meithrin arbenigedd a gwybodaeth briodol ymysg staff perthnasol | 3 | 3 | | GS | • Mae'r sgôr risg cyfredol wedi'i ostwng i 3, yn unol â'r sgôr targed<br>• Mae'r rhesymau allweddol am ei ostwng fel a ganlyn:<br>○ hyfforddiant anwytho bellach wedi'i ddarparu i holl aelodau'r CBLl, gydag adborth positif iawn<br>○ mae digwyddiadau hyfforddiant eraill, yn unol â'r cynllun hyfforddiant, wedi cael eu cynnal yn rhithiol drwy gydol y cyfnod COVID |
| T.2 | PPC yn gwneud penderfyniadau amhriodol neu anamserol | 4 | 4 | | GS | • Dim diweddariadau o bwys |
| T.3 | PPC yn methu â denu, penodi a chadw staff, cyflenwyr a darparwyr. | 4 | 4 | | GS | • Dim diweddariadau o bwys |
| T.4 | Risg gyda Staff Allweddol yn yr Awdurdod Lletya | 10 | 10 | | GS | • Mae'r sgôr targed wedi'i ostwng i 10, am fod y gyfradd tebygolrwydd wedi'i gostwng o 3 i 2 - golyga hyn fod y sgôr presennol bellach ar darged<br>• Y rheswm allweddol pam fod y gyfradd tebygolrwydd wedi'i gostwng yw bod rheolaethau risg ychwanegol wedi cael eu hychwanegu, megis adnabod adnoddau sgiliedig yn PPC a chan drydydd partïon y gellid eu defnyddio i lenwi unrhyw fylchau adnodd tymor byr-canolig yn yr Awdurdod Lletya |
| C.1 | PPC yn methu cyfathrebu ac ymgysylltu'n effeithiol â'i fudd-ddeiliaid mewnol. | 4 | 8 | | GS | • Ni fu unrhyw newid i'r sgôr risg ers yr adolygiad diwethaf.<br>• Rhagwelir unwaith y bydd cynrychiolaeth aelodau'r cynllun wedi'i weithredu (hyn yn mynd rhagddo), bydd y sgôr risg yn cael ei ostwng i 4 ac 'ar darged' |
| C.2 | PPC yn methu cyfathrebu ac ymgysylltu'n effeithiol â'i fudd-ddeiliaid allanol | 4 | 4 | | GS | • Mae'r gyfradd difrifoldeb ar y risg hwn wedi cynyddu i 4 ar gyfer y sgôr targed a'r sgôr presennol<br>• Y rheswm allweddol am y cynnydd yn y gyfradd difrifoldeb yw'r asesiad diwygiedig o'r effaith y gallai cyfathrebu aneffeithiol ei gael ar enw da a gweithrediad y Bartneriaeth |
| C.3 | Nid yw cyngor a gwybodaeth berthnasol yn cael eu cyflwyno mewn modd sy'n gymorth i wneud penderfyniadau | 4 | 4 | | GS | • Mae'r gyfradd difrifoldeb ar y risg hwn wedi cynyddu i 4 ar gyfer y sgôr targed a'r sgôr presennol<br>• Y rheswm allweddol am y cynnydd yn y gyfradd difrifoldeb yw'r asesiad diwygiedig o'r effaith y gallai cyfathrebu aneffeithiol ynghylch cyngor/gwybodaeth ei gael ar enw da, gweithrediad a chyllid y Bartneriaeth |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

## *Risg Hyfforddiant ac Adnoddau*

| | Manylion y Risg | | | | Sefyllfa Bresennol | Sgoriau | | | | Rheoli a Monitro | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Risg a Natur y Risg | Achos y Risg | Goblygiadau'r Risg | Y Sawl sy'n Gyfrifol am y Risg a Chyfnod yr Effaith | Rheolaethau Risg Presennol | | Difrifoldeb | Tebygolrwydd | Sgôr | Statws Presennol | Camau Gofynnol | Parti Cyfrifol a Dyddiad Adolygu | Adroddiad ar Gynnydd / Sylwadau |
| T.1 | Partneriaeth Pensiwn Cymru yn methu â chynnal a meithrin arbenigedd a gwybodaeth briodol ymhlith personél perthnasol. | •Bwlch yng ngwybodaeth personél newydd neu bresennol.<br>•Rhaglen hyfforddi anfoddhaol.<br>•Presenoldeb gwael mewn digwyddiadau hyfforddi. •Y potensial i'r risg gynyddu yn ystod cyfnod etholiadau lleol. | Bylchau gwybodaeth yn arwain at gamau aneffeithiol, analluu i gyflwni cyfrifoldebau, a gwneud penderfyniadau amhriodol. | Personél Partneriaeth Pensiwn Cymru | •Sicrhau bod hyfforddiant digonol yn cael ei ddarparu<br>•Cynnal mecanwaith ar gyfer cael mynediad at ofynion hyfforddi<br>•Sicrhau bod personél newydd yn derbyn hyfforddiant priodol ar ddechrau eu dyletswyddau (er enghraifft, hyfforddiant anwytho sydd bellach mewn lle)<br>•Cyhoeddi Cynllun Hyfforddi Blynyddol Partneriaeth Pensiwn Cymru<br>•Rhoi gofynion hyfforddi ar gontract allanol i arbenigwyr pan fo angen<br>•Rhoi tasgau ar gontract allanol i gynghorwyr arbenigol pan na ellir sicrhau'r lefel ofynnol o arbenigedd yn fewnol | Presennol | 3 | 1 | 3 |  | Amh. | Gweithgor Swyddogion | Yn ystod COVID, mae'r digwyddiadau hyfforddiant wedi bod, ac yn dal i fod yn rhithiol. Mae cynllun hyfforddiant yn ei le ac yn mynd rhagddo. Darparwyd hyfforddiant anwytho i holl aelodau'r CBLl gydag adborth positif. Rhannwyd y pecyn dogfennau llywodraethu hefyd fel rhan o'r broses anwytho. Nodir y gall bod newidiadau i'r CBLl o ganlyniad i etholiadau lleol, ond bydd effaith hyn ac unrhyw gamau gweithredu pellach sydd eu hangen yn cael eu hasesu bryd hynny. |
| | Gweithredol / Enw Da / Ariannol | | | Tymor Canolig | | Targed | 3 | 1 | 3 | | | Ch3 2022 | |
| T.2 | Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gwneud penderfyniadau amhriodol neu anamserol. | •Diffyg adnoddau.<br>•Mae gan bersonél perthnasol Partneriaeth Pensiwn Cymru flaenoriaethau sy'n eu gorlethu a/neu'n gwrthdaro.<br>•Diffyg ymgysylltu neu bresenoldeb gan bersonél perthnasol.<br>•Nid yw penderfyniadau a wneir yn cael eu gweithredu yn fewnol yn brydlon. | Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gwneud penderfyniadau amhriodol. Oediadau cyn gwneud penderfyniadau yn lleihau effeithiolrwydd penderfyniadau a/neu yn arwain at effaith negyddol. | Personél Partneriaeth Pensiwn Cymru | •Caiff penderfyniadau a wneir eu nodi a'u neilltuo i bersonél perthnasol<br>•Caiff presenoldeb mewn cyfarfodydd a'r rhai nad ydynt yn bresennol eu nodi ar ddechrau pob cyfarfod<br>•Adolygiad blynyddol o ofynion o ran adnoddau<br>•Defnyddio cyflenwyr allanol pan fydd angen adnoddau ychwanegol<br>•Cynllun Busnes a Chynllun Gwaith ar waith i flaenoriaethu penderfyniadau a gweithgareddau allweddol | Presennol | 4 | 1 | 4 |  | Amh. | Gweithgor Swyddogion | Amh. |
| | Gweithredol / Enw Da / Ariannol | | | Tymor Canolig | | Targed | 4 | 1 | 4 | | | Ch3 2022 | |
| T.3 | Partneriaeth Pensiwn Cymru yn methu â denu, penodi a chadw personél, cyflenwyr a darparwyr. | •Caiff penderfyniadau amhriodol eu gwneud oherwydd diffyg mewnbwn a safbwyntiau gan bersonél perthnasol, cynghorwyr a/neu gyflenwyr.<br>•Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gwneud penderfyniadau amhriodol oherwydd diffyg gwybodaeth/cyngor.<br>•Mae gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru adnoddau annigonol i wneud ei gwaith a cyflawni ei dyletswydd i randdeiliaid. | Nid yw Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gallu bodloni gofynion ei rhanddeiliaid allweddol. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gwneud penderfyniadau amhriodol a allai arwain at golled ariannol, aneffeithlonrwydd, risg i enw da. | Personél Partneriaeth Pensiwn Cymru | •Nodi gofynion Partneriaeth Pensiwn Cymru yn brydlon<br>•Os caiff gofyniad o ran adnoddau ei nodi, yna caiff yr ymarferion adnoddau/caffael perthnasol eu cyflawni<br>•Defnydd o'r Fframwaith Cenedlaethol<br>•Ymgysylltiad rheolaidd â'r farchnad i sicrhau bod Partneriaeth Pensiwn Cymru yn dal i fod yn gyflogwr/cleient cystadleuol a deniadol | Presennol | 4 | 1 | 4 |  | Amh. | Gweithgor Swyddogion | Amh. |
| | Gweithredol / Enw Da / Ariannol | | | Tymor Canolig | | Targed | 4 | 1 | 4 | | | Ch3 2022 | |
| T.4 | Risg Personél Allweddol yn yr Awdurdod sy'n Lletya | •Pobl benodol yn gadael yr Awdurdod sy'n Lletya.<br>•Awdurdod sy'n Lletya yn methu â gweithredu cynlluniau olyniaeth effeithiol.<br>•Mae swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Awdurdod sy'n Lletya wedi'u crynodi'n rhy ddwys ymhlith corff cyfyngedig o unigolion. | Nid yw'r Awdurdod sy'n Lletya yn gallu darparu cymorth i Bartneriaeth Pensiwn Cymru. Ni chymerir unrhyw gamau neu cymerir camau aneffeithiol, gan arwain at golled ariannol neu aneffeithlonrwydd. Caiff gwybodaeth allweddol a chysylltiadau presennol eu colli. | Gweithgor Swyddogion | •Sicrhau bod hyfforddiant a chynllunio olyniaeth digonol yn digwydd<br>•Cynnal mecanwaith ar gyfer cael mynediad at ofynion hyfforddi ymhlith personél presennol yr Awdurdod sy'n Lletya<br>•Sicrhau bod personél newydd yn derbyn hyfforddiant priodol ar ddechrau eu dyletswyddau • Mae personel y Gweithgor Swyddogion a Hymans yn fedrus i'r pwynt y gallent gamu i mewn i lenwi bylchau tymor byr mewn sgiliau.<br>• Mae ffeilio, polisïau a phrosesau cadarn mewn lle fel bod modd cymryd drosodd yn gyflym ac yn effeithlon. | Presennol | 5 | 2 | 10 |  | Amh. | Gweithgor Swyddogion | Yn y byrdymor mae'n bosib y gallai eraill yn y Gweithgor Swyddogion ofalu am y gwaith mae'r A.Lletya yn ei wneud. Gallai Hymans hefyd gyflawni rolau yn y tymor byr - defnyddiwyd hyn i lenwi bylchau byrdymor mewn adnoddau. Y targed wedi'i addasu i 5 a 2 i adlewyrchu ymarferoldeb lliniaru'r risg. |
| | Gweithredol / Enw Da / Ariannol | | | Byrdymor | | Targed | 5 | 2 | 10 | | | Ch3 2022 | |

## *Risg Cyfathrebu*

| | Manylion y Risg | | | | Sefyllfa Bresennol | Sgoriau | | | Rheoli a Monitro | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Risg a Natur y Risg | Achos y Risg | Goblygiadau'r Risg | Y Sawl sy'n Gyfrifol am y Risg a Chyfnod yr Effaith | Rheolaethau Risg Presennol | Difrifoldeb | Tebygolrwydd | Sgôr | Statws Presennol | Camau Gofynnol | Parti Cyfrifol a Dyddiad Adolygu | Adroddiad ar Gynnydd / Sylwadau |
| C.1 | Partneriaeth Pensiwn Cymru yn methu â chyfathrebu ac ymgysylltu yn effeithiol â rhanddeiliaid mewnol. | • Mae strategaethau cyfathrebu mewnol Partneriaeth Pensiwn Cymru yn aneffeithiol neu nid oes cydymffurfiad â nhw. | Caiff penderfyniadau amhriodol eu gwneud oherwydd diffyg mewnbwn a safbwyntiau gan randdeiliaid allweddol (e.e. safbwyntiau a gofynion Awdurdodau Cyfansoddol). Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gwneud penderfyniadau amhriodol a allai arwain at aneffeithlonrwydd, risg i enw da, dieithrwch, a cholli ymgysylltiad gan randdeiliaid allweddol. | Personél Partneriaeth Pensiwn Cymru | • Mae polisi cyfathrebu PPC yn cynnwys cyfathrebu mewnol, a chaiff ei adolygu'n flynyddol<br>•Defnyddio porth dogfennau at ddefnyddiau mewnol<br>•Defnyddio sianeli cyfathrebu lluosog<br>•Ymgysylltiad rheolaidd â rhanddeiliaid mewnol (e.e. cyfarfodydd, galwadau dwywaith yr wythnos ac e-byst • Cyflwyno holiaduron rheolaidd i'r ACau<br>• Defnyddio is-grwpiau'n rheolaidd lle bo'r angen | Presennol: 4 | 2 | 8 |  | Bydd y Gweithgor Swyddogion yn adolygu sut y gellir cynyddu maint ac amrywiaeth y mewnbwn a'r safbwyntiau gan ran-ddeiliaid mewnol PPC, ac yn trafod y canfyddiadau. Mae hyn yn cynnwys ystyried cynrychiolaeth o blith Aelodau'r Cynllun ar y CBLl.<br>Gweithredu ar gael cynrychiolaeth aelodau'r cynllun ar y CBLl. | Gweithgor Swyddogion | Mae adolygiad blynyddol o bolisi cyfathrebu'r Bartneriaeth wedi digwydd, ynghyd â'r dull cyfathrebu.<br>Yn y camau cynnar o ffurfioli'r broses o benodi cynrychiolwyr aelodau'r cynllun. |
| | Enw Da / Gweithredol | | | Tymor Canolig | | Targed: 4 | 1 | 4 | | | Ch3 2022 | |
| C.2 | Partneriaeth Pensiwn Cymru yn methu â chyfathrebu ac ymgysylltu yn effeithiol â rhanddeiliaid allanol. | •Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn methu â chyfleu ei chredoau a'i hamcanion i bartïon allanol.<br>•Nid yw Partneriaeth Pensiwn Cymru yn agored nac yn weithredol o ran ceisio ymgysylltiad â phartïon allanol.<br>•Nid yw Polisi Cyfathrebu Partneriaeth Pensiwn Cymru yn effeithiol neu'n ddigon pellgyrhaeddol.<br>•Nid oes gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru adnoddau digonol i gyflawni'r gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu angenrheidiol. | Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn methu ag ymgorffori canllawiau a chyngor i bartïon allanol perthnasol. Mae tybiaeth partïon allanol o Bartneriaeth Pensiwn Cymru yn ddiystyriaeth ac yn niweidiol. Effaith negyddol ar enw da Partneriaeth Pensiwn Cymru. | Personél Partneriaeth Pensiwn Cymru | •Llunio polisi cyfathrebu i Bartneriaeth Pensiwn Cymru sy'n cynnwys cyfathrebu allanol a gaiff ei adolygu'n flynyddol<br>•Gwefan Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cael ei chynnal a'i chadw'n rheolaidd<br>•Defnyddio sianeli cyfathrebu allanol a datganiadau i'r wasg<br>•Ymgysylltiad rheolaidd â rhanddeiliaid allanol (e.e. y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, Bwrdd Cynghori'r Cynllun, presenoldeb mewn Cynadleddau Rheoleiddwyr Pensiynau)<br>•Diweddariad ac adroddiad blynyddol PPC yn cael eu cyhoeddi | Presennol: 4 | 1 | 4 |  | Amh. | Gweithgor Swyddogion | Fe wnaeth y grŵp risg drafod difrifoldeb yr holl risgiau cyfathrebu gan gytuno bod sgôr difrifoldeb pob un yr un fath. Mae gan bob risg nawr sgôr difrifoldeb o 4. |
| | Enw Da / Gweithredol | | | Tymor Canolig | | Targed: 4 | 1 | 4 | | | Ch3 2022 | |
| C.3 | Nid yw cyngor a gwybodaeth berthnasol yn cael eu cyflwyno mewn ffordd sy'n cynorthwyo'r broses o wneud penderfyniadau. | •Nid yw cyngor a gwybodaeth yn cael eu targedu'n briodol at y gynulleidfa berthnasol.<br>•Nid yw fformat a chyflwyniad cyngor a gwybodaeth wedi'u dylunio'n dda ar gyfer y gynulleidfa.<br>•Nid yw'r gynulleidfa a fwriedir a/neu gwmpas cyngor a gwybodaeth yn eglur.<br>•Rhoddir amser neu adnoddau annigonol i lunio a/neu ystyried cyngor/gwybodaeth. | Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gwneud penderfyniadau amhriodol oherwydd diffyg gwybodaeth a/neu gyngor. Mae penderfyniadau amhriodol yn arwain at aneffeithlonrwydd / risg ariannol a risg i enw da. | Personél Partneriaeth Pensiwn Cymru / Y Gweithredwr / Rheolwr Buddsoddi / Cynghorydd Goruchwylio / Cynghorwyr a Chyflenwyr Eraill | •Caiff personél Partneriaeth Pensiwn Cymru, a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn arbennig, eu hannog yn weithredol i gynnig adborth ar berthnasedd a chyflwyniad cyngor a gwybodaeth<br>•Caiff cyngor a gwybodaeth eu cyflwyno mewn o leiaf dau fformat fel rheol (llafar ac ysgrifenedig)<br>•Sicrheir bod cyn lleied â phosibl o ddiweddariadau llafar yn unig<br>•Rhoddir amser a chyfleoedd digonol i ofyn cwestiynau egluro<br>•Caiff cyngor neu wybodaeth ddrafft eu rhannu gyda'r Awdurdod sy'n Lletya fel rheol, ar gyfer archwiliad ymwybyddiaeth, cyn eu rhannu neu eu cyflwyno<br>•Mae strwythur llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru yn galluogi archwiliadau cadw cydbwysedd lluosog cyn gwneud penderfyniadau | Presennol: 4 | 1 | 4 |  | Amh. | Gweithgor Swyddogion | Fe wnaeth y grŵp risg drafod difrifoldeb yr holl risgiau cyfathrebu gan gytuno bod sgôr difrifoldeb pob un yr un fath. Mae gan bob risg nawr sgôr difrifoldeb o 4. |
| | Gweithredol / Enw Da / Ariannol | | | Hirdymor | | Targed: 4 | 1 | 4 | | | Ch3 2022 | |

# CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

## DYDDIAD 22 MEDI 2021

| PWNC |
|---|
| **DIWEDDARIAD GAN Y GWEITHREDWR** |
| **ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:**<br><br>**Derbyn cyflwyniad gan y Gweithredwr ar gynnydd Partneriaeth Pensiwn Cymru** |
| **RHESYMAU:**<br><br>Y gweithredwr i roi diweddariad ar y meysydd allweddol a ganlyn:<br>• Daliadau Presennol y Gronfa<br>• Cynnydd efo Lansiad y Cronfeydd<br>• Diweddariad ac Ymgysylltiad Corfforaethol |



| Awdur yr Adroddiad: | Swydd: | Rhif Ffôn: 01267 224160 |
|---|---|---|
| **Chris Moore** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol<br><br>**Cyngor Sir Gâr** | **E-bost:**<br>**CMoore@carmarthenshire.gov.uk** |

# CRYNODEB GWEITHREDOL
# CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

## DYDDIAD 22 MEDI 2021

### DIWEDDARIAD GAN Y GWEITHREDWR

### CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD

Adroddiad gan y Gweithredwr yn rhoi diweddariad ar y cynnydd a'r cerrig milltir dan yr Is-gronfeydd a ganlyn:

- Haen 1 – Ecwiti Byd-eang
- Haen 2 – Ecwiti y DU
- Haen 3 – Incwm Sefydlog
- Haen 4 – Marchnadoedd Datblygol

Hefyd, diweddariad Corfforaethol ac Ymgysylltu yn cynnwys y protocol ymgysylltu a dyddiadau cyfarfodydd allweddol.

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?** | **OES** |

## GOBLYGIADAU

| Polisi, Trosedd ac Anhrefn, a Chydraddoldeb | Cyfreithiol | Cyllid | Materion Rheoli Risg | Goblygiadau Staffio |
|---|---|---|---|---|
| **DIM** | **DIM** | **DIM** | **DIM** | **DIM** |

## YMGYNGORIADAU

| |
|---|
| Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd yma. |

**Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol 1972 – Mynediad at Wybodaeth**
**Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:**

**NID OES DIM**

| **Teitl y Ddogfen** | **Cyfeirnod Ffeil** | **Y mannau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld/DOLEN GWEFAN** |
|---|---|---|
| | | |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# Partneriaeth Pensiwn Cymru


## Cydbwyllgor Llywodraethu

22 Medi 2021


# Mehefin 2021 Braslun LF o Gronfa PP Cymru

Allwedd:
- Dyfed
- Powys
- Gwynedd
- RhCT
- Torfaen
- Clwyd
- Abertawe
- Caerdydd


## Twf Byd-eang





## Cyfleoedd Byd-eang





## Cyfleoedd y DU





## Credyd Byd-Eang





## Bond Byd-eang y Llywodraeth





## Credyd Aml-ased





## Credyd Sterling




## Bond Enillion Absoliwt




## Goddefol



# Mehefin 2021 Braslun LF o Gronfa PP Cymru

| Cronfa | AUM | Dyddiad cychwyn |
|---|---|---|
| Twf Byd-eang | £3,208,540,164 | 6th Chwe 2019 |
| Cyfleoedd Byd-eang | £2,792,178,410 | 14th Chwe 2019 |
| Cyfleoedd y DU | £751,880,470 | 10th Hyd 2019 |
| Credyd Byd-Eang | £810,037,012 | 21st Awst 2020 |
| Bond Byd-eang y Llywodraeth | £530,955,066 | 20th Awst 2020 |
| Credyd Aml-ased | £714,417,901 | 12th Awst 2020 |
| Credyd Sterling | £563,785,051 | 19th Awst 2020 |
| Bond Enillion Absoliwt | £460,885,763 | 30th Medi 2020 |
| **Cyfanswm Buddsoddiadau Gweithredol** | **£9,832,679,837** | |
| **Cyfanswm Buddsoddiadau Goddefol** | **£5,274,037,932** | |
| **Cyfanswm Asedau Cyfun** | **£15,106,717,769** | |

Noder: Yr holl ddata fel ar 30 Mehefin 2021

# Adroddiad Cynnydd ar Lansiad y Gronfa

**Diweddariadau Haen 4 ac eraill**

# Gweithgaredd Lansio Agored

## Llwyddiannau Allweddol a Diweddariadau

| Cynnydd o ran Lansio Cronfeydd | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Trosolwg** | **Statws** | **Cynnydd yn y cyfnod** | **Dyddiadau lansio / cwblhau** |
| Haen 4: **Lansio'r is-gronfa Marchnadoedd Datblygol** | ▪ Caiff y gronfa Marchnadoedd Datblygol ei chreu o dan y model Gweithredu Portffolio Estynedig gyda thros-haen lleihau carbon | Yn mynd rhagddo | ▪ Cymeradwyaeth FCA wedi'i dderbyn ar 22 Mawrth<br>▪ Trefniadau gweithredol ar y gweill ar gyfer lansiad diwedd mis Hydref<br>▪ Cynllun trosglwyddo yn cael ei adolygu<br>▪ Dyddiad lansio wedi'i addasu i 20 Hydref | Hydref 2021 |
| **Diweddariadau Prosbectws y Gronfa** | ▪ Diweddariadau arfaethedig ar y prosbectws sy'n mynd rhagddo | | ▪ Adolygu iaith y prosbectws i alinio'r holl is-gronfeydd o dan ofynion PS19/4 - LFS i benderfynu a fydd angen ffeilio hwn neu gael cymeradwyaeth lawn FCA (yn unol â'r diweddariadau eraill)<br>▪ Baillie Gifford GAPA: gweithredu proses sgrinio carbon ar is-gyfrif BG y gronfa GG | Ch3 |

LINK Group

# Diweddariad ac Ymgysylltiad Corfforaethol LFS

# Diweddariad ac Ymgysylltiad Corfforaethol LFS

